



## HYSBYSIAD PREIFATRWYDD DATA CYNGOR SIR FYNWY

<b>Cyfarwyddiaeth:</b>	Cymunedau a Lleoedd
<b>Maes Gwasanaeth:</b>	Cynllunio
<b>Manylion Cyswllt:</b>	<a href="mailto:dataprotection@monmouthshire.gov.uk">dataprotection@monmouthshire.gov.uk</a>
<b>Enw'r Hysbysiad Preifatrwydd</b>	<b>Hysbysiad Preifatrwydd Polisi Cynllunio</b>

### **Sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth**

#### **Diben a sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich gwybodaeth**

##### **Ein rheswm/rhesymau cyfreithiol dros ddefnyddio eich gwybodaeth:**

- Mae rhwymedigaeth gyfreithiol arnom i brosesu eich gwybodaeth
- Mae prosesu yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg gyhoeddus
- Rydym yn dibynnu ar eich caniatâd penodol i brosesu eich gwybodaeth bersonol. Sylwch bod ond angen caniatâd arnom ar gyfer y wybodaeth sydd gennym ar ein Cronfa Ddata Cynllun Datblygu Lleol Amnewid (CDLIA) a ddefnyddir i hysbysu partïon â chanddynt ddi-ddordeb am y cynnydd a wneir ar ein cynllunio strategol a lleol.

Er mwyn cael rhagor o wybodaeth am sail gyfreithiol ewch i [www.ico.org.uk](http://www.ico.org.uk)

#### **Eich hawl i dynnu eich caniatâd yn ôl**

Mae gennych yr hawl i dynnu eich caniatâd yn ôl i brosesu'r wybodaeth sydd gennym ar ein Cronfa Ddata Cynllun Datblygu Lleol Amnewid. I dynnu eich caniatâd yn ôl, cysylltwch â'r Maes Gwasanaeth drwy'r manylion ar frig y ddogfen hon.

#### **Pwy fydd yn cael mynediad at eich gwybodaeth?**

Y Rheolydd Data ar gyfer eich gwybodaeth yw Cyngor Sir Fynwy.  
E-bost: [dataprotection@monmouthshire.gov.uk](mailto:dataprotection@monmouthshire.gov.uk)

Bydd Rheolyddion Data eraill o bosib hefyd yn gyfrifol am eich gwybodaeth, gan ddibynnu ar yr amgylchiadau penodol. Cysylltwch gyda'r Maes Gwasanaeth am wybodaeth bellach.

#### **Dyma'r adrannau lle'r ydym yn rhannu eich gwybodaeth gyda hwy'n fewnol:**

- Yr Adran Gyfreithiol
- Priffyrdd
- Teithio Lles
- Llifogydd a Draenio
- Iechyd Amgylcheddol
- Datblygu Economaidd
- Tai
- Addysg
- Y Dreth Gyngor
- BywydMynwy/MonLife (Ecoleg, Tirwedd, Seilwaith Gwyrdd, Twristiaeth a Hamdden)
- Ystadau
- Archwilio Mewnol



## HYSBYSIAD PREIFATRWYDD DATA CYNGOR SIR FYNWY

**Dyma'r asiantaethau / mudiadau y byddwn yn rhannu eich data gyda hwy'n allanol er mwyn asesu'r CDLIA:**

- Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru

**Efallai y bydd yna amgylchiadau pan fyddwn yn rhannu eich gwybodaeth gyda mudiadau allanol eraill er mwyn medru derbyn cyngor arbenigol:**

- Llywodraeth Cymru
- Dŵr Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru

Bydd unrhyw wybodaeth a rennir gyda'r uchod yn cael ei wneud yn unol gyda [Chod Ymarfer Rhannu Data y Comisiynydd Gwybodaeth](#)

**Mae amgylchiadau lle mae rhwymedigaeth gyfreithiol arnom i rannu eich gwybodaeth gyda hwy:**

Asiantaethau Gorfodi Cyfreithiau'r Llywodraeth e.e. gyda'r Heddlu o dan y Ddeddf Atal neu Ddarganfod Troseddau.

**Cynllun Datblygu Lleol Amnewid – Ymatebion i'r Ymgynghoriad ac Adroddiadau Ymgynghori:**

Bydd sylwadau a gyflwynir ar gamau allweddol o broses y CDLIA Newydd ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio ac ni ellir eu trin yn gyfrinachol ac mae hyn yn unol â Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'i diwygiwyd 2015). Bydd Adroddiadau Ymgynghori ar gael ar wefan y Cyngor.

**Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PCAC) a Swyddog Rhaglen y CDLIA:**

Rydym yn rhannu gwybodaeth ag Arolygydd Cynllunio a Phenderfyniadau Amgylchedd Cymru pan archwilir y CDLIA. Mae Swyddog Rhaglen y CDLIA yn cynorthwyo gydag Archwiliad y CDLIA a bydd ganddo fynediad i gronfa ddata'r CDLIA er mwyn cysylltu â hyrwyddwyr safleoedd ac aelodau'r cyhoedd yn ôl yr angen. Mae gan PCAC bolisi cyhoeddi [Guide to engaging with planning and environment decisions wales.pdf \(gov.wales\)](#). Mae Hysbysiad Preifatrwydd PCAC ar gael yma: [Gwaith achos cynllunio: hysbysiad preifatrwydd | GOV.WALES](#)

**Ceisiadau am wybodaeth**

Gall yr holl wybodaeth a gedwir gan Gyngor Sir Fynwy fod yn destun ceisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol gan gynnwys unrhyw gyfraith Diogelu Data arall.

Os yw'r wybodaeth a ddarperir gennych yn amodol ar gais o'r fath, bydd Cyngor Sir Fynwy lle bo'n bosibl yn ymgynghori â chi ar ei ddatgelu. Os byddwch yn gwrthwynebu datgelu eich gwybodaeth, byddwn yn atal eich gwybodaeth os bydd y ddeddfwriaeth berthnasol yn caniatáu hynny.

**Sut ydym yn storio eich data**

Cedwir unrhyw gofnodion papur mewn storfa ddiogel. Mae'r holl ddata yn cael ei storio ar ein rhydweithiau diogel a dm ond saff perthnasol fel sydd wedi ei nodi uchod sydd yn medru cael mynediad at y wybodaeth

**Golygu**

Rydym yn gweithredu polisi lle'r ydym yn golygu'r manylion canlynol fel mater o drefn cyn sicrhau bod dogfennau ar gael ar-lein:

- Manylion cyswllt personol e.e. enw, cyfeiriad, cyfeiriad e-bost a rhifau ffôn.
- Llofnodion



## HYSBYSIAD PREIFATRWYDD DATA CYNGOR SIR FYNWY

- Data Categori Arbennig e.e. gwybodaeth am grefydd, iechyd ac ethnigrwydd unigolyn
- Gwybodaeth a gytunir sy'n gyfrinachol

### Am ba mor hir byddwn yn cadw eich gwybodaeth?

Bydd gwybodaeth yn cael ei gadw a'i defnyddio yn unol gyda'n polisi cadw. Am fwy o wybodaeth am breifatrwydd, ewch os gwelwch yn dda i: [<https://www.monmouthshire.gov.uk/your-privacy/>](https://www.monmouthshire.gov.uk/your-privacy/)

### Eich Hawliau

#### Eich hawliau o dan y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol yw:

- Yr hawl i gael eich hysbysu
- Yr hawl i gael mynediad
- Yr hawl i gywiro
- Yr hawl i gywiro, atal, dileu neu ddifa eich gwybodaeth mewn amgylchiadau penodol
- Yr hawl i gyfyngu prosesu
- Yr hawl i gludadwyedd data
- Yr hawl i wrthwynebu
- Yr hawl i dderbyn iawndal os yw Cyngor Sir Fynwy yn methu â chydymffurfio ag anghenion penodol o'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol sydd yn ymwneud â'ch gwybodaeth.

Am fwy o wybodaeth, ewch i [www.ico.org.uk](http://www.ico.org.uk)

### Y Weithdrefn Gwyno

Os ydych yn gwrthwynebu'r ffordd y mae Cyngor Sir Fynwy yn trin eich data, mae gennych yr hawl i gwyno. Cysylltwch â'r Maes Gwasanaeth a nodwyd ar frig y ddogfen hon gan amlinellu eich problemau. Dilynwch y ddolen hon i gael rhagor o wybodaeth am y [proses gwyno](#). Os ydych yn dal yn anhapus mae gennych hawl i gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth [www.ico.org.uk](http://www.ico.org.uk)

<b>Rhif Hysbysiad</b>	ENTPH002
<b>Preifatrwydd:</b>	03.05.18
<b>Dyddiad y Crëwyd:</b>	15.06.23
<b>Dyddiad y</b> <b>Cyhoeddwyd:</b>	2
<b>Rhif y Fersiwn:</b>	



**HYSBYSIAD PREIFATRWYDD DATA CYNGOR SIR FYNWY**

# **Hysbysiad Cryno Preifatrwydd Data**

## **Sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth**

Mae prosesu eich data personol gan Gyngor Sir Fynwy (MCC) yn angenrheidiol i gyflawni tasg gyhoeddus. Heb y wybodaeth hon, efallai na fydd Polisi Cynllunio o fewn Cyngor Sir Fynwy yn gallu rhoi gwybod i chi am y cynnydd a wneir o ran y Cynllun Datblygu Lleol Amnewid.

Bydd eich cofnodion yn cael eu storio'n ddiogel a'u cadw yn unol â'n polisi cadw, oni bai bod angen i ni eu cadw o dan sail gyfreithlon arall.

Mae gennych nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth, gan gynnwys yr hawl i gael mynediad at wybodaeth sydd gennym amdanoch a'r hawl i gwyno os ydych yn anhapus â'r ffordd y mae eich gwybodaeth yn cael ei phrosesu. I gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn prosesu eich gwybodaeth a'ch hawliau, cliciwch ar y ddolen ganlynol: <https://www.monmouthshire.gov.uk/cy/eich-preifatrwydd/>

Os bydd angen i chi wneud cwyn am y ffordd y mae eich data wedi'i brosesu, cysylltwch â [dataprotection@monmouthshire.gov.uk](mailto:dataprotection@monmouthshire.gov.uk) neu os nad ydych yn gwbl fodlon gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar-lein - [www.ico.org.uk/concerns](http://www.ico.org.uk/concerns) - neu drwy eu llinell gymorth: 0303 123 1113



**HYSBYSIAD PREIFATRWYDD DATA CYNGOR SIR FYNWY**